**Atodiad A**

CYNGOR BRO MORGANNWG

# Strategaeth Hygyrchedd Drafft 2025-27

## Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.

Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.

Cysylltwch â ni ar 01446 709727 er mwyn trefnu hyn.

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ... 3
2. **Y Strategaeth** ... 4
3. **Diffiniadau** ... 7
4. **Cyd-destun Lleol** ... 7
5. **Cyd-destun Cyfreithiol** ... 9
6. **Mynediad at y Cwricwlwm** ... 11
7. **Gwasanaethau'r Cyngor** ... 12
8. **Mynediad at yr Amgylchedd Ffisegol** ... 14
9. **Hygyrchedd Teithiau Ysgol** ... 17
10. **Polisi a Chynlluniau Hygyrchedd Ysgol** ... 18
11. **Gwerthuso ac Adolygu** ... 18
12. **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** .. **Error! Bookmark not defined.**

## Strategaeth Hygyrchedd Bro Morgannwg 2025-27 (Hygyrchedd i ddisgyblion sydd ag amhariad ac sy'n anabl o ganlyniad iddo.)

## 1. Cyflwyniad

Yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 sydd wedi'i gynnwys yn Adran 1, defnyddir y term 'dysgwr anabl' trwy gydol y ddogfen hon i gyfeirio at blant a phobl ifanc yn ysgolion Bro Morgannwg sydd ag amhariad ac sy'n anabl o ganlyniad iddo.

Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer gwella'n raddol hygyrchedd ei ysgolion i ddysgwyr anabl. Caiff ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru bob tair blynedd. Mae'n bwysig nodi bod y strategaeth hon yn ymwneud yn benodol â gwella mynediad i ddysgwyr anabl fel a ddiffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O'r herwydd, mae angen gwahaniaethu rhwng anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn ei ysgolion a gynhelir a'i leoliadau addysgol yn cael pob cyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Mae'r Cyngor yn cydnabod:

- bod dysgwyr anabl yn wynebu heriau penodol sy'n eu rhoi mewn perygl o gael eu gyrru i gyrion byd addysg a'u cymuned leol, a rhag cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol a rhag gallu mwynhau bywyd cymdeithasol;
- bod gwahaniaethau yn parhau rhwng cyrhaeddiad pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl;
- effaith croestoriadedd lle mae pobl sy'n rhannu mwy nag un nodwedd warchodedig mewn perygl o nifer o anfanteision, annhegwch, gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- y gall agweddau ac ymddygiadau systemig, gwahaniaethol ac sydd wedi ymwreiddio gyflwyno heriau sylweddol;
- yr angen am ddull seiliedig ar asedau sy'n gwerthfawrogi gwybodaeth a phrofiad byw y plentyn a'r teulu ochr yn ochr ag arbenigedd yr ysgol, lle, gyda'i gilydd, gellir cyflawni newid cadarnhaol;
- y cysylltiad rhwng anabledd a thlodi;
- bod plant anabl yn fwy tebygol o ddioddef trosedd.

Wrth baratoi'r strategaeth hygyrchedd, mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad llawn ac effeithiol er mwyn nodi'r gwelliannau priodol. Bydd hyn yn sicrhau bod safbwyntiau'r dysgwyr anabl a'u rhieni / gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol priodol wedi eu hystyried. Mae'n bwysig bod y Strategaeth hon yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y cymunedau dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, lleoliadau, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach y gallwn wireddu'r weledigaeth hon.

Rhaid i strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd nodi:

➢ Sut gall ysgolion a'r Cyngor wella ansawdd a rhychwant cyfranogiad llawn y dysgwyr anabl at y cwricwlwm, gan gynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol a'r tu allan i'r ysgol? (Erthyglau 23 a 29 o CCUHP).

- Pa welliannau ar yr amgylchedd ffisegol sydd eu hangen er mwyn i ysgolion a'r Cyngor sicrhau'r mynediad gorau posibl i addysg, buddion, cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer dysgwyr anabl? (Erthyglau 6 a 28 o CCUHP).
- Sut bydd ysgolion a'r Cyngor yn gwella darpariaeth gwybodaeth hygyrch i ddysgwyr anabl? (Erthyglau 2, 4 a 13 o CCUHP).
- Sut mae plant a phobl ifanc yn ymwneud â gwneud penderfyniadau (Erthygl 12 CCUHP).

Bydd y strategaeth hon yn egluro safbwynt y Cyngor ar wella hygyrchedd i ddysgwyr anabl ac yn amlinellu cyfrifoldebau ysgolion o ran bodloni eu gofynion o ran hygyrchedd gan gynnwys hygyrchedd y cwricwlwm, yr amgylchedd ffisegol a gwybodaeth i ddysgwyr anabl. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn ymgysylltu mor llawn â phosibl yn ei ddysgu a'i ddatblygiad a bydd y strategaeth hon yn helpu i sicrhau bod dysgwyr anabl yn cael eu cynnwys yn llawn mewn amgylchedd ysgol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) mae'n rhaid i Gyngor Bro Morgannwg baratoi strategaeth hygyrchedd ar gyfer yr ysgolion y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn berthnasol i ysgolion a gynhelir gan y cyngor. Mae'r strategaeth hygyrchedd yn nodi bod y Cyngor yn bwriadu cynyddu mynediad i addysg i ddysgwyr anabl ym mhob ysgol. Dylai ysgolion ystyried strategaeth y Cyngor wrth lunio eu cynlluniau hygyrchedd ysgolion eu hunain.

Mae gan bob ysgol ddyletswydd statudol i lunio a chyhoeddi cynllun hygyrchedd ysgol. Yn ogystal â dyletswyddau cyffredinol i gyrff cyhoeddus, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd gan ysgolion, darparwyr y blynyddoedd cynnar, sefydliadau ôl-16, ac eraill tuag at blant a phobl ifanc anabl. Mae anabledd yn nodwedd warchodedig o fewn telerau'r Ddeddf hon. Mae'r strategaeth hon yn egluro blaenoriaethau'r Cyngor o ran gwella hygyrchedd i ddysgwyr anabl ac yn amlinellu cyfrifoldebau ysgolion a lleoliadau a gynhelir wrth fodloni'r gofynion hyn. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol. Mae Atodlen 10 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi'n glir yr hyn y mae'n rhaid i bob Cyngor yng Nghymru a Lloegr ei wneud fel rhan o'u strategaeth hygyrchedd. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y strategaeth hon, a baratowyd gan roi ystyriaeth briodol i ofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

## 2. Y Strategaeth

Nod cyffredinol y strategaeth hon yw sicrhau bod Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau ac yn eu galluogi i gyflawni canlyniadau uchelgeisiol. Gyda'r lefel gywir o gymorth a chefnogaeth, dylai pob dysgwr fod â'r gallu i gyflawni bywydau fel oedolion hapus, iach a boddhaus. Nod y Cyngor yw eu harfogi cyn belled ag y bo modd i fyw'n annibynnol, i ddod o hyd i swydd a chael bywyd cymdeithasol gweithredol – gyda chymorth pan fydd ei angen arnynt.

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein hysgolion a gynhelir:

- yn meddu ar ddiwylliant croesawgar a chynhwysol, oherwydd bydd yr holl staff wedi ymrwymo i agenda cynhwysol;
- â'r seilwaith sydd ei angen i gyflawni'r agenda cynhwysol hwn, oherwydd bydd cynllunio strategol y Cyngor a'r ysgol / lleoliad yn cefnogi'r gwaith parhaus o wella mynediad i'r cwricwlwm, y cyfleusterau a'r wybodaeth;
- yn galluogi llwyddiant i bawb, oherwydd bydd y Cyngor a'r ysgol / lleoliad yn monitro ac yn herio cynnydd a chyflawniad yn drylwyr; ac
- yn nodi anghenion cyn gynted â phosibl; asesu a diwallu anghenion yn effeithiol ac yn amserol; gwella canlyniadau a chyfleoedd bywyd i bob plentyn a pherson ifanc.

Mae Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg yn amlinellu gweledigaeth gref y Cyngor ar gyfer dyfodol Bro Morgannwg. Mae'r weledigaeth hon yn ein harwain o ran sut rydym yn cynllunio, darparu ac adolygu ein gwasanaethau. Ein gweledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg yw "**Cymunedau cryf gyda dyfodol disglair."**

Ein pedwar amcan lles newydd yw:

- Gweithio gyda a thros ein cymunedau
- Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Mae gwella mynediad at addysg i ddysgwyr anabl yn golygu ystyried y canlynol:

- y cwricwlwm a sut y caiff ei addysgu;
- hygyrchedd adeiladau ysgol a'u hamgylchoedd, gweithgareddau ysgol gan gynnwys teithiau ysgol a thrafnidiaeth; a'r
- gwybodaeth a gweithgareddau a ddarperir gan ysgolion a pha mor hawdd ydyw i ddysgwyr anabl a/neu eu rhieni anabl eu deall.

Gelwir y rhain yn 'dair dyletswydd gynllunio' ac maent yn ofyniad statudol o Atodlen 10 y Ddeddf.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod sicrhau hygyrchedd yn ffocws parhaus; bydd newid staff, ac ysgolion / lleoliadau ar adegau yn cyflwyno anghenion dysgu ac anableddau ychwanegol am y tro cyntaf. Bydd angen gweithredu a datblygu ymhellach bob amser. Ein nod felly yw meithrin 'diwylliant dysgu' sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus ym mhopeth a wnawn. Cyflawnir hyn drwy'r canlynol:

- Darparu canllawiau a hyfforddiant parhaus i staff i'w cefnogi i weithredu deddfwriaeth berthnasol yn effeithiol.
- Casglu a lledaenu enghreifftiau o arfer da ar draws y Cyngor a'r gymuned addysgol ehangach.
- Darparu gwybodaeth i annog datblygiad proffesiynol parhaus ym maes anghenion dysgu ychwanegol, anabledd a chynhwysiant.
- Sicrhau mynediad parhaus at gyngor a chymorth drwy wasanaethau arbenigol a gynhelir yn ganolog a sefydliadau partner.
- Datblygu ysgolion ymhellach fel canolfannau rhagoriaeth.

- Gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael yn rhwydd er mwyn cefnogi mynediad wrth gychwyn mewn ysgol a throsglwyddo rhwng ysgolion.
- Creu hinsawdd lle mae ysgolion bob amser yn ystyried dysgwyr anabl pan gynigir unrhyw newid i'r cwricwlwm a pholisïau eraill.
- Sicrhau bod ysgolion yn adolygu eu cynlluniau hygyrchedd yn rheolaidd.

Nod y Cyngor yw sicrhau bod gwelliannau i amgylchedd ffisegol ysgolion yn cael eu gwneud i gynyddu mynediad i addysg. Cyflawnir hyn drwy'r canlynol:

- Cefnogi ysgolion i adolygu mynediad ffisegol eu safleoedd.
- Sicrhau bod yr Adran Eiddo yn monitro'r holl brosiectau adeiladu a gynhelir yn ganolog neu gan ysgolion er mwyn mynd i'r afael â materion hygyrchedd.
- Rhoi cyngor i ysgolion ar faterion anabledd a hygyrchedd.

Bydd y Cyngor hefyd â'r nod o sicrhau bod gwelliannau i'r ddarpariaeth wybodaeth ar gyfer dysgwyr anabl yn cael blaenoriaeth. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cymorth a chyngor ar ddarparu gwybodaeth a pharhau i gynnal gwasanaethau cymorth arbenigol.

Bydd y strategaeth hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Strategaeth Dysgu a Sgiliau
- Cynllun adnewyddu asedau
- Y Rhaglen Gyfalaf
- Cynlluniau Hygyrchedd Ysgolion
- Cynlluniau Strategol y Cyngor
- Dogfen Egwyddorion ADY
- Pecyn Cymorth Bro Morgannwg: Diwallu Anghenion Gofal Iechyd Plant a Phobl Ifanc

Bydd y strategaeth ar gael i bob ysgol a grŵp arall â diddordeb ac i'r cyhoedd ar ffurf sydd mor hygyrch â phosibl.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf?**

**Ymgynghori**
Mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldebau dros bob disgybl o ddifrif a bydd yn dilyn Canllawiau Llywodraeth Cymru wrth baratoi ac adolygu'r strategaeth hygyrchedd hon. Byddwn yn ymgynghori â thrawstoriad eang o ddarparwyr gwasanaethau, defnyddwyr a sefydliadau'r trydydd sector rhwng 7 Hydref a 18 Tachwedd 2024. Ymgynghorir â phlant, pobl ifanc, ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau'r Cyngor sy'n gweithio gydag ysgolion er mwyn nodi cryfderau'r ddarpariaeth bresennol a nodi meysydd allweddol i'w gwella. Bydd y wybodaeth hon, ar y cyd â data ansoddol a meintiol arall a gedwir, yn cael ei defnyddio i nodi a gosod targedau a blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Gweithredu Strategaeth Hygyrchedd y Cyngor.

Bydd y Cyngor hefyd yn adolygu canlyniadau strategaethau / cynlluniau presennol er mwyn nodi'r hyn a weithiodd a pham y gweithiodd; beth oedd yn llai llwyddiannus a beth oedd y rhesymau am hynny; ac a yw'r anghenion a nodwyd yn parhau. Byddwn

yn nodi'r rhwystrau hygyrchedd sy'n weddill.  Byddwn yn cynnal ymchwil i nodi unrhyw rwystrau hygyrchedd blaenorol ac i nodi arfer gorau mewn ysgolion.

Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar y canlyniadau a ddymunir a'r blaenoriaethau gwella a awgrymir i gyflawni'r canlyniadau hynny sydd wedi'u rhestru fel:

- byr dymor - yn cael sylw o fewn y flwyddyn 1af
- tymor canolig - cychwyn neu fynd i'r afael â hwy yn ystod y strategaeth hygyrchedd bresennol
- hirdymor - wedi dechrau ond fe'i hystyrir yn broses barhaus

Dylid rhestru canlyniadau hefyd yn ôl cost ac effaith.

Byddwn yn gosod targedau (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig, amserol ac i'w gwerthuso ac adolygu) a fydd yn nodi pa ganlyniadau a gyflawnir, ac erbyn pryd.

Lle bo angen, byddwn yn ymgynghori ymhellach gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu ynghylch pam y mae penderfyniadau dilynol wedi'u gwneud wrth ddrafftio.

Bydd y strategaeth hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol ar gael i unrhyw un ar gais, mewn unrhyw fformat arall sydd ei angen.  Rydym wedi cyhoeddi'r strategaeth hygyrchedd (2021-2024) ar wefan y Cyngor a bydd yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi eu cynlluniau hygyrchedd unigol ar eu gwefannau nhw.

Bydd tystiolaeth o weithredu'r strategaeth hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol yn destun adolygiad er mwyn nodi'r cynnydd a wnaed a'r rhwystrau sy'n weddill, ynghyd â'u hatebion.

## 3. Diffiniadau

**Anabledd** - Mae gan berson anabledd os oes ganddo amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.  Gall amhariad corfforol neu feddyliol gynnwys anawsterau dysgu, cyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau meddygol neu amhariadau cudd fel dyslecsia, awtistiaeth ac amhariadau lleferydd, iaith a chyfathrebu (Deddf Cydraddoldeb, 2010)

**Addasiadau Rhesymol** - Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan gyrff sy'n gyfrifol am ysgolion ddyletswydd i wneud "addasiadau rhesymol" ar gyfer pobl anabl. Mae hyn yn cynnwys darparu cymhorthion neu wasanaeth ategol.  Nid yw'n cynnwys y ddyletswydd addasu resymol i wneud newidiadau i nodweddion ffisegol.  Mae dyletswydd i geisio osgoi anfantais.

## 4. Cyd-destun Lleol

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn darparu ystod eang o ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau:

- Mae gwasanaethau'r cyngor yn gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod addysg yn diwallu anghenion amrywiol plant ac yn galluogi mynediad, e.e. PICEM, panel DDdY ac ati...
- Mae gan bob ysgol gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (Cydlynydd ADY).
- Mae gan bob ysgol gysylltiadau cryf ag Ysgol Arbennig y Deri.
- Mae gwasanaethau Allgymorth y Cyngor yn cefnogi ac yn cynghori ysgolion ar strategaethau er mwyn sicrhau bod disgyblion sydd ag ADY / anabledd yn gallu manteisio ar y cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol. Mae'r athrawon arbenigol a'r gwasanaethau allgymorth yn hyblyg o ran y ffordd y maent yn diwallu anghenion disgyblion.
- Mae gwasanaethau'r cyngor yn gweithio gydag ysgolion ac asiantaethau arbenigol er mwyn sicrhau y gall disgyblion gymryd rhan mor llawn â phosibl yn unol â'u hanabledd.
- Gellir rhoi disgyblion mewn canolfannau rhagoriaeth arbenigol os oes angen mewnbwn dwys neu gymorth arbenigol ar eu hanabledd / anghenion ychwanegol. Mae’r rhain yn cynnwys:

  - Hafan
  - Gorwel
  - Ysgol Gynradd Gladstone
  - Canolfan Ragoriaeth Anghenion Cymhleth Ysgol Gynradd Parc Jenner
  - Canolfan Ragoriaeth Gorfforol Ysgol Gynradd Palmerston yn y Barri
  - Canolfan Rhagoriaeth Lleferydd ac Iaith Ysgol Y Ddraig
  - Canolfan Ragoriaeth Amhariad ar y Clyw Ysgol Gynradd Cogan
  - Canolfannau Rhagoriaeth Amhariad ar y Clyw a Ffisegol Ysgol Gyfun Sant Cyres
  - Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gwaun y Nant
  - Derw Newydd

**Cynllun Corfforaethol - Cyngor Bro Morgannwg**
Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei weledigaeth ar gyfer 'cymunedau cryf â dyfodol disglair' Bro Morgannwg. Bydd ein gweledigaeth yn helpu i'n harwain o ran sut rydym yn cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau. Mae'r cynllun corfforaethol hefyd yn dangos sut rydym yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru, a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Cynllun yn disgrifio'r pedwar canlyniad llesiant rydym am eu cyflawni ar gyfer ein dinasyddion. Y canlyniadau llesiant rydym am eu cyflawni yw:

| Gweithio gyda a thros ein cymunedau | Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy | Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned | Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd |
|---|---|---|---|
| • Bod yn wydn, yn arloesol ac yn ymatebol i anghenion ein cwsmeriaid.<br>• Cynnwys, cyfathrebu ac ymgysylltu. | • Poblogaeth addysgedig a medrus<br>• Annog uchelgeisiau pobl.<br>• Annog dyheadau pobl a sicrhau bod unigolion a | • Gweithio mewn partneriaeth i wneud y gorau o les corfforol a meddyliol pobl.<br>• Sicrhau bod pobl yn ddiogel gartref ac yn y gymuned. | • Safonau uchelgeisiol.<br>• Deall sut mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at les unigol, cymunedol a byd-eang. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Ein hadnoddau. | chymunedau’n gallu ffynnu a chyflawni eu gorau. | • Sicrhau bod pobl yn cael y cyngor, y gofal a'r cymorth angenrheidiol. | • Wedi ymrwymo i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd. |

Mae'r cynllun yn manylu ar y gweithgareddau y bydd y Cyngor yn ymgymryd â hwy er mwyn sicrhau'r rhagolygon gorau posibl ar gyfer ein dinasyddion a'n cymunedau a sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gyflawni'r canlyniadau hyn. Mae cyflawni'r cynllun yn seiliedig ar werthoedd ein Cyngor sy'n uchelgeisiol, yn agored, gyda'i gilydd ac yn falch. Mae'r gwerthoedd hyn yn disgrifio ein hymddygiad proffesiynol yn y ffordd rydym yn ymdrin â'n gwaith, yn delio â'n gilydd a'n defnyddwyr gwasanaethau.

## 5. Cyd-destun Cyfreithiol

**Deddf Cydraddoldeb 2010**
Mae Atodlen 10 i'r Ddeddf yn pennu gofyniad strategaeth hygyrchedd Cyngor, y mae'n rhaid iddo ddangos y canlynol:

1. Cynyddu i ba raddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol
2. Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgolion gyda’r nod o gynyddu i ba raddau y gall disgyblion anabl fanteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgolion;
3. Gwella'r broses o gyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion anabl sydd ar gael yn hawdd i ddisgyblion nad ydynt yn anabl.

Creodd y Ddeddf Cydraddoldeb Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n cynnwys dwy ddyletswydd ar wahân sy'n berthnasol i gynghorau ac ysgolion. Mae hyn yn cynnwys ysgolion a gynhelir, ysgolion sefydledig ac ysgolion a gynorthwyir. Mae anabledd yn nodwedd warchodedig o fewn telerau'r Ddeddf hon.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cefnogi ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys y rhai ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar ac Ôl-16, y mae'n gorff cyfrifol ar eu cyfer, er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, yn benodol:

- i gynyddu i ba raddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol
- i wella amgylchedd ffisegol ysgolion a lleoliadau er mwyn cynyddu i ba raddau y gall disgyblion sydd ag anabledd fanteisio ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig; ac
- i wella argaeledd gwybodaeth hygyrch i ddisgyblion sydd ag anabledd a'u rhieni.

**Y Ddyletswydd Gyffredinol**
Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r anghenion canlynol:

- Dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Dileu aflonyddu sy'n gysylltiedig â'u hanabledd ar ddisgyblion anabl.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill.
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl.
- Annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.
- Cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl, hyd yn oed lle mae hynny'n golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill.

Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn berthnasol ar draws dyletswyddau ysgolion, ac mae'n berthnasol i ddisgyblion, staff a rhieni / gofalwyr anabl, ynghyd â defnyddwyr anabl eraill yr ysgol.

**Y Ddyletswydd Benodol**
Yn ogystal â'r Ddyletswydd Gyffredinol, mae Dyletswydd Benodol i ysgolion ddangos sut y maent yn bodloni'r Ddyletswydd Gyffredinol. Y prif ofyniad yw i ysgolion baratoi a chyhoeddi Polisi a Chynllun Hygyrchedd Ysgolion, sy'n cynnwys pobl anabl yn natblygiad hynny, a gweithredu'r cynllun ac adrodd arno. Mewn gwirionedd, mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn nodi'r hyn y mae ysgolion yn ei wneud, gyda'r Ddyletswydd Benodol yn nodi sut y mae'n rhaid i ysgolion ei wneud, a'r hyn y mae angen iddynt ei gofnodi fel tystiolaeth o'r hyn y maent wedi'i wneud.
Rhaid i ysgolion a'r Cyngor fod yn ymwybodol o ofynion ehangach Deddf Cydraddoldeb 2010 sydd yn Rhan 3 o'r Ddeddf, sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, nwyddau a chyfleusterau. Gall hyn effeithio ar ystod o weithgareddau p'un a ydynt yn cynnwys defnyddio safleoedd ysgol gan grwpiau cymunedol, neu'r Cyngor wrth ddarparu ei wasanaeth addysg a'i gymorth i ysgolion.

Yn bwysig, mae'r Ddeddf yn annog defnyddio addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bobl anabl lle nad oes dyletswydd o'r fath yn berthnasol i berson galluog. Mae hyn yn berthnasol i ysgolion a chynghorau wrth arfer eu dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb.

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**
Mae'r Ddeddf newydd yn effeithio ar bron pob lleoliad addysg yng Nghymru ac yn canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed. Mae'n gofyn am y canlynol:

- Disodli'r termau 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau / anableddau dysgu' gyda'r term newydd, 'anghenion dysgu ychwanegol'.
- Creu un cynllun statudol, y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer dysgwyr.
- Mwy o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc, gan sicrhau eu bod wrth wraidd y broses gynllunio a gwneud penderfyniadau.
- Blaenoriaethu dyheadau uchel a gwella canlyniadau, gan ganolbwyntio ar gyflawniad y plentyn neu'r person ifanc o'i lawn botensial.
- Darparu proses symlach a llai gwrthwynebol, gan sicrhau bod anghenion dysgwyr yn y canol a'u bod yn cael eu diwallu'n barhaus.
- Creu rolau statudol newydd ym maes iechyd ac addysg er mwyn sicrhau cydweithio ac integreiddio fel bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu.
- Yn canolbwyntio ar ddatrys anghytundeb cynharach, gydag anghytundebau'n cael eu datrys ar y lefel fwyaf lleol posibl.

- Cyflwyno hawliau apelio clir a chyson lle na ellir datrys anghytundebau ar lefel leol.
- Cyflwyno Cod cryfach, a fydd yn cyd-fynd â'r Ddeddf, gyda gofynion gorfodol a chanllawiau statudol i gefnogi'r ddeddfwriaeth sylfaenol.
- Mae'r Ddeddf hefyd yn cefnogi gweledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy gynnwys cyfres o ddyletswyddau strategol sydd â'r nod o ysgogi cynnydd tuag at system anghenion dysgu ychwanegol wirioneddol ddwyieithog.
- Cefnogi myfyrwyr o enedigaeth i 25 oed.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**
Bydd y strategaeth hon hefyd yn cefnogi ac yn llywio'r cyngor wrth gyfrannu at ein cyfrifoldebau dros Nodau Llesiant Cymru, a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fel y Cyngor feddwl mwy am oblygiadau tymor hir ei benderfyniadau a gweithredoedd, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd agwedd fwy cydgysylltiedig. Rhaid i gyrff cyhoeddus wneud eu gwaith mewn ffordd gynaliadwy a sicrhau wrth wneud penderfyniadau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- weithio'n well gyda'i gilydd
- cynnwys pobl gan adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau
- meddwl am y dyfodol yn ogystal â chanolbwyntio ar heddiw
- Cymryd camau i atal problemau rhag gwaethygu

Mae'r Ddeddf yn penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol statudol ar gyfer Cymru, y mae ei rôl yn cynnwys gwarchod buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chynorthwyo cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r Ddeddf hefyd wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) i bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob BGC wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r nodau lles.

## 6. Mynediad at y Cwricwlwm

Mae sicrhau mynediad i'r cwricwlwm yn hanfodol i ddatblygu cyfleoedd bywyd, paratoi ar gyfer bod yn oedolion a galluogi cyfraniad i'r gymuned. Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at addysgu o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar arfer gynhwysol ac sy'n chwalu rhwystrau i ddysgu.

Mae pob ysgol yn gyfrifol am ddarparu cwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol i bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY. Mae rhieni a gofalwyr yn bartneriaid allweddol wrth ddatblygu cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau. Rhaid i ysgolion weithio gyda rhieni a gofalwyr a disgyblion i ddatblygu canlyniadau uchelgeisiol a phriodol ar gyfer eu cynlluniau personol.

Mae'r Cyngor yn cefnogi ysgolion drwy ei wasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles a'r gwasanaeth Safonau a Darpariaeth. Mae'r gwasanaethau ar gael i bob cam, a lleoliadau ysgol a gynhelir ac arbennig. Mae hyn yn cynnwys:

- darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i staff ysgolion drwy ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol bob tymor;
- cynnig hyfforddiant ym mhob agwedd ar anghenion dysgu ychwanegol a diogelu;
- cefnogi drwy Ddull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin â Iechyd Meddwl a Lles sy'n cynnwys asesiadau ar-lein, polisïau diogelu a strategaethau gwrth-fwlio; a
- darparu cymorth er mwyn paratoi ar gyfer Estyn, y corff annibynnol sy'n arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r gwasanaethau'n galluogi disgyblion sydd ag ystod o anghenion i gael mynediad i'r cwricwlwm gyda chymorth arbenigol athrawon cynghori a Chynorthwywyr Cymorth Dysgu. Mae'r tîm hefyd yn darparu hyfforddiant i ysgolion er mwyn sicrhau bod dull ysgol gyfan o wella cyfranogiad disgyblion.

## 7. Gwasanaethau’r Cyngor

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn wasanaeth sy'n ceisio hyrwyddo cynhwysiant, lles, presenoldeb a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc. Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn cynnig ymgynghori ac asesu o amgylch ystod eang o feysydd sy'n effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd ag ADY.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd yn cynnwys tîm o athrawon arbenigol a staff cymorth, sy'n rhoi cymorth i blant a phobl ifanc o'u genedigaeth. Nod y gwasanaeth yw sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag amhariad ar eu golwg neu amhariad ar eu clyw, mewn ysgolion prif ffrwd neu ysgolion arbennig, yn mwynhau'r un cyfleoedd â'u cyfoedion. Mae hefyd yn ceisio goresgyn rhwystrau i fanteisio i'r eithaf ar botensial. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi ei leoli yn y Ganolfan Ragoriaeth Clyw, yn Ysgol Gynradd Cogan. Mae athrawon arbenigol yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd er mwyn sicrhau bod strategaethau addysgu a chymorth wedi'i dargedu o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc, i ganiatáu mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol.

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau arbenigol sydd â'r nod o gefnogi ysgolion sydd â disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio neu wahardd, a'r rhai sydd wedi'u gwahardd yn barhaol. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar drawma ar gyfer plant sydd ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar ddatblygiad a dysgu.

Mae'r Gwasanaeth Iaith a Lleferydd yn wasanaeth arbenigol sy'n cefnogi plant mewn ysgolion prif ffrwd a chanolfannau adnoddau, sydd â'r anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mwyaf difrifol a phenodol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli yn y Ganolfan Iaith a Lleferydd er mwyn sicrhau bod strategaethau addysgu o ansawdd

uchel ar gael i blant a phobl ifanc a chymorth targededig i ganiatáu mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol.

Mae'r Gwasanaeth Allgymorth Gwybyddol yn wasanaeth arbenigol sy'n cefnogi plant mewn ysgolion prif ffrwd, sydd ag anghenion dysgu cymedrol i ddifrifol. Mae'r gwasanaeth wedi ei lleoli yn y Ganolfan Ragoriaeth Wybyddol yn Ysgol Gynradd Parc Jenner. Maent yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd er mwyn sicrhau bod strategaethau addysgu a chymorth wedi'i dargedu o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc i ganiatáu mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol.

Mae'r Gwasanaeth Allgymorth Corfforol yn wasanaeth arbenigol sy'n cefnogi plant mewn ysgolion prif ffrwd, sydd ag anghenion corfforol cymedrol i ddifrifol. Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli yn y Ganolfan Ragoriaeth Gorfforol yn Ysgol Gynradd Palmerston, ac mae'n gweithio gydag ysgolion prif ffrwd er mwyn sicrhau bod strategaethau addysgu a chymorth wedi'i dargedu o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc i ganiatáu mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol.

Mae'r Gwasanaeth Allgymorth Anawsterau Dysgu Penodol yn wasanaeth arbenigol sy'n cefnogi plant mewn ysgolion prif ffrwd, sydd ag Anawsterau Dysgu Penodol. Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli'n ganolog ac mae'n gweithio gydag ysgolion prif ffrwd er mwyn sicrhau bod strategaethau addysgu a chymorth wedi'i dargedu o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc i ganiatáu mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol.

Mae canllawiau ar gefnogi disgyblion ag anghenion meddygol ar gael yn y Pecyn Cymorth Anghenion Gofal Iechyd sy'n cynnwys polisi enghreifftiol ar gyfer ysgolion.

Mae ystod o weithwyr iechyd proffesiynol yn cefnogi ysgolion i gynnwys disgyblion anabl. Mae therapyddion galwedigaethol yn cynghori ysgolion am addasrwydd yr amgylchedd a'r defnydd o therapïau sy'n seiliedig ar weithgaredd, sy'n eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl gan helpu i godi hunan-barch yr unigolyn. Maent yn cynghori ar yr offer arbenigol neu'r addasiadau priodol sy'n ofynnol i amgylchedd yr ysgol. Gall ffisiotherapyddion gynghori ysgol am symudedd a datblygiad corfforol unigolyn. Gallai hyn gynnwys pethau fel cydsymydedd corfforol a'r gallu i eistedd, sefyll a cherdded. Gallant gynghori ysgol ar y ffordd orau o helpu i gadw'r plentyn mor symudol â phosibl ac ar unrhyw offer neu addasiadau arbenigol priodol i'r amgylchedd. Maen nhw'n:

- darparu cymorth a hyfforddiant i bob ysgol er mwyn sicrhau y gallant gynnig gwybodaeth gwbl hygyrch i ddisgyblion a rhieni / gofalwyr;
- cynghori ysgolion ar y dulliau mwyaf priodol o gyfleu gwybodaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- darparu canllawiau ar addysgu a chefnogi disgyblion sydd ag amhariad ar eu synhwyrau;
- darparu arweiniad a chymorth ar fformatau gwybodaeth hygyrch a dulliau ar gyfer cyfathrebu â rhieni a gofalwyr sydd ag anableddau;
- sicrhau bod deunyddiau canllaw ysgrifenedig ar gael i staff, rhieni a gofalwyr; a
- chynnig arweiniad arbenigol naill ai drwy ffynonellau allanol neu ddefnyddio adnoddau'r cyngor yn uniongyrchol.

Bydd gwasanaethau allgymorth o ysgolion a'n gwasanaethau canolog arbenigol yn cefnogi ac yn cynghori ysgolion ar amrywiaeth o strategaethau amgylcheddol sy'n gwella cynhwysiant disgyblion anabl.

Er enghraifft, gall Gwasanaethau Allgymorth Palmerston a Sant Cyres hwyluso mynediad disgybl sydd ag anhawster corfforol. Gall y tîm allgymorth anawsterau dysgu penodol roi cyngor i ysgolion ar sut i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau echddygol mân a bras. Gall hyn gynnwys cyngor ar aildrefnu gofod yn yr ystafell, tynnu rhwystrau o lwybrau cerdded, a newid cynllun ystafelloedd dosbarth.

Gall y Gwasanaeth Ymgysylltu yn Ysgol y Deri gefnogi ysgolion i greu mannau diogel ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ASA a chynghori ar drefnu gofod corfforol er mwyn osgoi gorlwytho synhwyraidd.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu yn gweithio gydag ysgolion i nodi man tawel neu ardal amser allan i alluogi disgyblion i reoli eu hemosiynau.

Mae'r gwasanaeth Safonau a Darpariaeth yn cefnogi trosglwyddo o ysgol i'r ysgol. Maent yn cefnogi disgyblion i ymateb i sefyllfaoedd newydd gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau a strategaethau cefnogol. Gall hyn gynnwys gwaith uniongyrchol gyda gwahanol dimau o fewn ardal y gwasanaeth, fel y bo'n briodol.

**Trafnidiaeth Ysgol**
Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy’n byw y tu hwnt i bellter cerdded yr ysgol briodol agosaf. Os yw'ch plentyn yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim, fel rheol rhoddir caniatâd i deithio ar gerbyd contract os oes un yn gwasanaethu'ch ardal. Mewn achosion eraill, darperir tocyn bws i deithio ar y rhwydwaith gwasanaeth bysiau. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn darparu trafnidiaeth am ddim ar gyfer:

- disgyblion oedran cynradd sy'n byw dwy filltir neu ymhellach o'u hysgol ddalgylch benodedig o’r fath; ac
- ar gyfer disgyblion oedran uwchradd sy'n byw tair milltir neu ymhellach o'u hysgol ddalgylch benodedig o’r fath.

Mesurir pellteroedd drwy’r llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Bydd angen i ddisgyblion fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol os oes angen. Ceir rhagor o wybodaeth am drafnidiaeth i'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am gymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn y Polisi ar gyfer Darparu Trafnidiaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol / Coleg.

## 8. Mynediad at yr Amgylchedd Ffisegol

Gall gwahaniaethu fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Gwahaniaethu uniongyrchol o ran disgybl anabl yw lle caiff y disgybl anabl hwnnw ei drin yn llai ffafriol nag un arall oherwydd ei amhariad neu ei anabledd. Fodd bynnag, nid gwahaniaethu yw trin disgybl anabl yn fwy ffafriol nag un nad yw'n anabl. Mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i ddisgyblion anabl. Mae’r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol gymryd camau positif er mwyn

sicrhau y gall disgyblion anabl gyfrannu'n llawn yn yr addysg a ddarperir gan yr ysgol a mwynhau'r buddion, y cyfleusterau a'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan yr ysgol.

Rhaid i addasiadau rhesymol, er mwyn darparu ar gyfer disgyblion anabl presennol ac yn y dyfodol, gael eu hymgorffori mewn strategaethau a chynlluniau hygyrchedd - mae angen cynllunio o flaen llaw a gwella'n barhaus p'un a yw disgyblion anabl yn mynychu'r ysgolion dan sylw ai peidio. Bydd y Cyngor yn ceisio gwella amgylchedd ffisegol ysgolion a mynediad at wybodaeth, at y diben o gynyddu i ba raddau y gall disgyblion anabl fanteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan ysgolion. Bydd y cyngor yn cymryd pob cam rhesymol, lle y bo'n bosibl oherwydd cyfyngiadau ariannu, er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i'w holl adeiladau, fodd bynnag, gellir ei gyfyngu o ran y mesurau y gall eu cymryd oherwydd cyfyngiadau adeiladau rhestredig a rheoliadau cadwraeth eraill. Gall hyn hefyd gael ei effeithio gan ymarferoldeb a chyfyngiadau presennol y safle a fyddai'n golygu bod addasiadau yn gostus.

Mae nifer o heriau lleol yn bodoli ym Mro Morgannwg mewn perthynas ag ysgolion. Mae cynnydd o ran mewnfudo i Fro Morgannwg wedi arwain at nifer o ardaloedd yn gofyn am ysgolion newydd neu ehangu / ailwampio, er mwyn ymateb i'r cynnydd o ran niferoedd disgyblion. Mae addasrwydd adeiladau hefyd yn bryder, gyda nifer o safleoedd heb gyrraedd safonau'r 21ain ganrif ar hyn o bryd. Mae amgylcheddau dysgu priodol ar gyfer dysgwyr a staff anabl yn ystyriaeth allweddol, gan sicrhau lle bynnag y bo modd bod y dysgwyr hyn yn cael yr un cyfleoedd ar gyfer amgylcheddau dysgu modern, wedi'u teilwra'n benodol at eu hanghenion, a sicrhau amgylchedd dysgu diogel i ddisgyblion a staff.

Mae'r Cyngor yn ystyried ei gyfrifoldebau parthed cynnal a chadw adeiladau yn ddifrifol iawn ac mae ganddo raglen lem ar waith o fewn terfyn yr adnoddau sydd ar gael o ran cynnal a chadw a phrosiectau cyfalaf. Fodd bynnag, o fewn asedau'r Cyngor, mae rhai ysgolion nad ydynt yn addas i fodloni gofynion addysg yn yr 21ain Ganrif. Mae'r ysgolion hyn, wedi'u categoreiddio'n C neu C-, wedi cael eu hadnabod i'w datblygu yn Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r materion o ran cyflwr adeiladau. Mae hyn hefyd yn cynnig cyfle i leihau'r ôl groniad o waith cynnal a chadw a chreu arbedion effeithlonrwydd sylweddol a fydd yn cael eu cynhyrchu o gyfleusterau cymunedol a rennir ac adeiladau cynaliadwy. Mae yna ysgolion sydd â blociau a nodwyd yng nghyflwr C yn yr arolygon diweddar nad ydynt yn mynd i gael eu hailddatblygu ar hyn o bryd. Er ein bod wedi gwario arian dros y blynyddoedd diwethaf yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r rhain, mae rhai yn parhau.

Bydd asesiadau gan ysgolion o fynediad corfforol i'r cwricwlwm a chyfleusterau yn cael eu hannog a'u cefnogi gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod cymorth corfforol ar waith ar gyfer gweithredu'r cynlluniau ar gyfer pob disgybl sydd â datganiadau a/neu Gynlluniau Iechyd a Gofal Addysg o fewn yr amserlenni perthnasol. Dyrennir cyllideb flynyddol o'r rhaglen Adnewyddu Asedau Dysgu a Sgiliau i wneud newidiadau ffisegol i adeiladau ysgolion sy'n diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer disgyblion penodol, fodd bynnag mae'r gyllideb hon yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau ariannu.

Mae gwelliannau a gwblhawyd yn flaenorol wedi cynnwys lledu drysau a gosod drysau a rampiau awtomatig er mwyn darparu mynediad at gadeiriau olwyn ac addasiadau i doiledau hygyrch. Lle mae gwaith ailfodelu'n cael ei wneud i gynyddu

capasiti, er enghraifft, caiff mynediad i'r anabl ei wella lle bynnag y bo'n ymarferol i fodloni'r safonau presennol.

**Adeiladu Hygyrchedd**

Mae'r Cyngor wedi datblygu Canllaw Hygyrchedd Rheoli Cynnal a Chadw i gynorthwyo rheolwyr eiddo, gan gynnwys penaethiaid, i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol o ran mynediad i'r anabl wrth ymgymryd â gwaith adeiladu yn eu hysgol. Mae hwn ar gael i bob ysgol ochr yn ochr â'r cynnig o gyngor, cefnogaeth a chymorth pellach os oes angen.

Mae rhaglen dreigl flynyddol o waith gwella hygyrchedd o fewn y rhaglen gyfalaf er mwyn gwneud newidiadau ffisegol i adeiladau ysgolion a bydd targedau i wella'r sefyllfa bresennol yn rhan o gynllun gweithredu Strategaeth Hygyrchedd 2025-2027 y Cyngor a fydd yn cael ei ffurfioli ochr yn ochr â’r Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn. Oherwydd y cyllid cyfyngedig sydd ar gael i gynnal ysgolion presennol, cymerwyd dull cynyddrannol o wella hygyrchedd i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae'r dopograffeg andwyol yn Y Barri a'r ffaith bod llawer o ysgolion yn Y Barri a Phenarth dros 100 mlwydd oed yn arwain at nifer sylweddol o ysgolion lle nad yw'n bosibl gwneud yr addasiadau gofynnol i'r adeilad er mwyn caniatáu mynediad llawn. Felly, mae'r Cyngor wedi mynd ati i wella ysgolion un llawr ar safleoedd lefel, er enghraifft, er mwyn gwella hygyrchedd. Mae hyn wedi cynnwys lledu drysau a gosod drysau a rampiau awtomatig i ddarparu mynediad at gadeiriau olwyn ac addasiadau i doiledau hygyrch i ddiwallu anghenion disgyblion. Cynghorir ysgolion i gysylltu â'r Adran Eiddo cyn gynted â phosibl, pan fydd gofynion plentyn yn cael eu nodi drwy'r Therapydd Galwedigaethol neu asesiad arall, er mwyn sicrhau bod addasiadau'n cael eu cwblhau'n gynnar er mwyn caniatáu mynediad llawn i'r cwricwlwm.

Ar brosiectau ar raddfa fawr lle caiff gwaith ailfodelu ei wneud neu estyniadau eu hychwanegu i gynyddu capasiti, caiff mynediad i'r anabl ei wella er mwyn bodloni'r safonau presennol. Mae'r mathau o welliannau a wnaed eisoes wedi cynnwys gosod lifftiau mewnol neu allanol er mwyn darparu mynediad i gadeiriau olwyn rhwng gwahanol lefelau o'r ysgol, darparu toiledau hygyrch ac i'r anabl, sicrhau bod cynlluniau lliw yn addas ar gyfer pobl sydd ag amhariad ar eu golwg a gosod goleuadau fflachio o fewn systemau larwm tân ar gyfer y rheiny sydd ag amhariad ar eu clyw.

**Y Rhaglen Gyfalaf**

Cwblhaodd y Cyngor arolygon cyflwr yn 2022 ar gyfer pob ysgol a adeiladwyd cyn 2010 er mwyn blaenoriaethu buddsoddiad a gwella mynediad i bob ysgol. Rydym yn parhau i gynnal rhaglen dreigl o welliannau mynediad corfforol mewn ysgolion i ddiwallu anghenion y disgyblion a nodwyd. Rydym yn ariannu'r gwelliannau hyn naill ai o'r rhaglen gyfalaf neu'r cyllidebau refeniw Addysg a reolir yn ganolog, yn dibynnu ar faint yr addasiadau.

**Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

Mae’r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysgol ledled Cymru. Mae’n enghraifft o gydweithredu unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynghorau, colegau ac

awdurdodau esgobaethol. Ceir manylion llawn am y buddsoddiad sylweddol ac uchelgeisiol hwn ar dudalen y Cyngor.
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (bromorgannwg.gov.uk)

Caiff pob adeilad ysgol newydd a gynigir fel rhan o Raglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ei chynllunio mewn modd sy'n paratoi staff ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr sydd ag anabledd a/neu anghenion dysgu ychwanegol.

Mae adeiladau ysgol newydd wedi'u cynllunio i gydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth sy'n ymwneud ag anabledd. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw amgylchiadau arbennig o ran yr angen presennol neu ar gyfer yr amgylcheddau hynny sy'n cynnal darpariaeth ychwanegol (h.y. canolfannau adnoddau).

Wrth gynllunio prosiect adeiladu ysgol neu ysgol newydd, mae llawer o elfennau dylunio wedi'u hymgorffori i gefnogi disgyblion anabl. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, ystafell fechan rhwng pâr o ystafelloedd dosbarth a allai gael ei defnyddio ar gyfer dysgu unigol / grŵp bach neu a allai gael ei defnyddio fel man tawel os oes angen i ddisgybl adael yr ystafell ddosbarth. Caiff defnydd creadigol o ddeunyddiau acwstig a chynlluniau lliw pwrpasol sy'n tawelu ac ati hefyd eu hystyried gan y tîm dylunio mewn ymgynghoriad llawn â staff, disgyblion a llywodraethwyr. Mae adeiladau ysgol newydd wedi'u cynllunio i gael gofodau hyblyg y gellir eu haddasu gan ddefnyddio dodrefn ar gyfer gweithgareddau penodol, megis ardaloedd tawel ar gyfer dysgu unigol. Mae adeiladau newydd wedi'u cynllunio i'r safonau acwstig presennol (BB93). Bydd hyn yn diffinio'r safon perfformiad acwstig y bydd ysgolion yn bwriadu ei defnyddio. Caiff pob adeilad ysgol newydd ei ddylunio i gydymffurfio â rheoliadau adeiladu cyfredol o ran mynediad anabl gyda pharcio a mynediad i adeilad yr ysgol yn ogystal â mynediad ym mhob rhan o'r ysgol. Bydd golau naturiol ac awyru'n nodwedd allweddol yn yr amgylcheddau dysgu newydd.

Bydd Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy felly'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach sy'n ymweld â'r ysgol, sydd wedi'u nodi yn y grŵp gwarchodedig hwn, gan y bydd ganddynt fynediad i adeiladau ysgol cwbl hygyrch sydd wedi'u cynllunio i ystyried anghenion unigol.

## 9. Hygyrchedd Teithiau Ysgol

Gall gwahaniaethu fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynghori mai gwahaniaethu uniongyrchol disgybl anabl yw lle mae'r disgybl anabl hwnnw'n cael ei drin yn llai ffafriol nag un arall oherwydd ei amhariad neu ei anabledd. Gwahaniaethu uniongyrchol, er enghraifft fyddai lle y gwrthodwyd derbyn disgybl sydd â chyflwr meddygol penodol i ysgol ar sail y nodwedd honno. Fodd bynnag, nid gwahaniaethu yw trin disgybl anabl yn fwy ffafriol nag un nad yw'n anabl. Er enghraifft, gellir rhoi amser ychwanegol i ddisgybl sydd â dyslecsia gwblhau arholiad ysgrifenedig ac efallai na chaiff hynny ei ystyried yn gwahaniaethu. Gall dysgwyr anabl brofi gwahaniaethu anuniongyrchol lle mae polisi penodol, fel y'i cymhwysir, yn eu rhoi o dan anfantais (neu, pe bai'n cael ei gymhwyso, yn eu rhoi o dan anfantais). Enghraifft o hyn fyddai pe bai gan ysgol, sy'n darparu ar gyfer disgyblion anabl, bolisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion sy'n mynychu teithiau preswyl fod yn gwbl ymataliol. Effaith y polisi yw gwahaniaethu yn erbyn y rhai nad ydynt yn gwbl ymataliol a'u hallgáu o deithiau preswyl. Pe bai'r rheswm dros beidio â

bod yn gwbl ymataliol yn ganlyniad i anabledd, byddai hyn yn gwahaniaethu anuniongyrchol yn seiliedig ar anabledd. Caniateir gwahaniaethu'n anuniongyrchol, lle gellir cyfiawnhau gwahaniaethu o'r fath yn wrthrychol, ond mae'n annhebygol y byddai'r ysgol yn gallu cyfiawnhau'r weithred. Mae gwahaniaethu'n codi pan gaiff disgybl anabl ei drin yn llai ffafriol nid oherwydd yr anabledd ei hun, ond am reswm sy'n ymwneud â'i anabledd ac na ellir cyfiawnhau'r driniaeth honno. Dywedir wrth ddisgybl â pharlys yr ymennydd sy'n defnyddio cadair olwyn na fydd yn gallu mynychu taith ysgol i theatr leol sy'n cynnal drama y mae'n ei hastudio yn Saesneg ar hyn o bryd, oherwydd nad yw'r adeilad yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r disgybl a'i rhieni yn ymwybodol bod y ddrama hefyd ymlaen mewn theatr, sy'n hygyrch, mewn dinas gyfagos. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn ymchwilio i'r opsiwn hwn. Mae hyn yn debygol o fod yn gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd.

## 10. Polisïau a Chynlluniau Hygyrchedd Ysgolion

Rhaid i bob ysgol gael Polisi a Chynllun Hygyrchedd sy'n dangos pa gamau y mae ysgol yn eu cymryd i gynyddu mynediad i'r cwricwlwm, yn enwedig i'r disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai ysgolion gynnwys agweddau ehangach ac nid pynciau unigol yn unig. Dylai cynllunio ffyrdd o gynyddu mynediad i'r cwricwlwm gynnwys gweithgareddau fel y canlynol:

- goresgyn unrhyw rwystrau sy'n atal neu'n ei gwneud yn anodd i blant a phobl ifanc anabl gymryd rhan lawn mewn tripiau ysgol a gweithgareddau fel dramâu ysgol, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau cymorth astudio; a
- sicrhau bod ethos yr ysgol yn un sy'n dathlu amrywiaeth ac yn annog cynhwysiant.

Ceir enghraifft o Bolisi a Chynllun Hygyrchedd Ysgol ynghlwm wrth y ddogfen hon (Atodiad 1)

**Mynediad at Wybodaeth**
Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn disgrifio'r ddarpariaeth sydd ar gael i blant sydd ag anableddau ac yn bodloni'r ddau angen allweddol isod:

- darparu gwybodaeth glir, gynhwysfawr, hygyrch a chyfredol am y ddarpariaeth sydd ar gael a sut i gael gafael arni; a
- gwneud darpariaeth yn fwy ymatebol i anghenion a dyheadau lleol drwy gynnwys plant anabl a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'u rhieni a darparwyr gwasanaethau'n uniongyrchol yn ei ddatblygiad a'i adolygiad.

Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr fel sy'n ofynnol yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

## 11. Gwerthuso ac Adolygu

Mae'r Strategaeth hon yn cwmpasu'r cyfnod 2025-2027 a chaiff ei hadolygu a'i diweddaru'n yn ôl y gofyn. Er mwyn helpu i weithredu'r strategaeth a'r ddyletswydd, gall y cyngor ofyn i bob ysgol ddarparu copïau i'r cyngor o'u cynlluniau hygyrchedd.

**Atodiad**

**Cynllun Hygyrchedd yr Ysgol**
Corff llywodraethu'r Ysgol sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r Cynllun Hygyrchedd ac fel rhan o'r broses adolygu reolaidd, bydd angen i ysgolion ystyried yr angen i ddarparu adnoddau digonol ar gyfer gweithredu ac adolygu'r cynllun hwn.
Ystyrir bod Cynllun Hygyrchedd yn foddhaol:

- Pan mae ar gael yn ysgrifenedig.
- Pan mae'n cwmpasu'r tri llinyn canlynol o gynyddu mynediad dros amser:
    1. Mwy o fynediad i'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion anabl.
    2. Gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol er mwyn cynyddu mynediad at addysg a gwasanaethau cysylltiedig yn yr ysgol.
    3. Gwelliannau o ran darparu gwybodaeth i ddisgyblion anabl lle caiff ei darparu'n ysgrifenedig ar gyfer disgyblion nad ydynt yn anabl.

Yn ogystal, dylai Cynllun Hygyrchedd:

- Fod â digon o adnoddau;
- Cael ei weithredu;
- Cael ei adolygu’n rheolaidd.
- Cael ei ddiwygio yn ôl yr angen (e.e. pan fydd gwelliannau neu waith atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau’n cael eu cynllunio);
- Cael ei ddiwygio, os oes angen, yn ystod cyfnod o dair blynedd a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei hadrodd i rieni / gofalwyr bob blwyddyn;
- Fod yn ddogfen annibynnol neu ran o gynllun datblygu'r ysgol; a
- Chael ei gyhoeddi yng nghyd-destun Deddf Cydraddoldeb 2010, y gellir dehongli ei bod yn sicrhau bod cynllun yr ysgol ar gael yn eang ac yn hawdd

Mae templed enghreifftiol wedi'i gynnwys i'r ysgol ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer datblygu eu cynllun hygyrchedd eu hunain.

**Polisi a Chynllun Hygyrchedd**

**YSGRIFENNWYD GAN:**

**DYDDIAD CADARNHAU**

**DYDDIAD ADOLYGU / ADNEWYDDU YN Y DYFODOL:**

***Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisi ADY yr Ysgol***
**Gofyniad Statudol**

Llunnir y Cynllun Hygyrchedd hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r gofynion cyfredol, fel y nodir yn Atodlen 10, sy'n ymwneud ag Anabledd, o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraethwyr Ysgol yn atebol am sicrhau bod y Cynllun Hygyrchedd yn cael ei weithredu a’i adolygu a bod ei gynnydd yn cael ei adrodd dros gyfnod penodedig.

Disodlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 yr holl ddeddfwriaeth cydraddoldeb ar y pryd, gan gynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae effaith y gyfraith yr un

fath ag yn y gorffennol, sy'n golygu “na all ysgolion wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn disgyblion oherwydd rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.”

**Diben y Cynllun**
Mae Cynllun Hygyrchedd *[nodwch enw'r ysgol]* yn dangos sut y dylid gwella mynediad i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr anabl i'r ysgol, gan ragweld yr angen i wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu eu hanghenion lle y bo'n ymarferol.

**Ffocws y Cynllun**
Mae'r Cynllun Hygyrchedd yn cynnwys camau perthnasol ac amserol:

- Cynyddu mynediad i'r cwricwlwm i ddisgyblion sydd ag anabledd corfforol a/neu amhariadau synhwyraidd, gan ehangu'r cwricwlwm yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod disgyblion sydd ag anabledd yr un mor barod am oes â'r disgyblion abl; (Os bydd ysgol yn methu â gwneud hyn, mae'n torri ei dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010); mae hyn yn cynnwys addysgu a dysgu a chwricwlwm ehangach yr ysgol megis cymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau hamdden a diwylliannol neu ymweliadau ysgolion. Mae hefyd yn ymdrin â darparu cymhorthion ac offer arbenigol neu ategol, a allai gynorthwyo'r disgyblion hyn i gael mynediad i'r cwricwlwm o fewn amserlen resymol; gwella a chynnal mynediad i amgylchedd ffisegol yr ysgol, gan ychwanegu cyfleusterau arbenigol yn ôl yr angen – mae hyn yn cynnwys gwelliannau i amgylchedd ffisegol yr ysgol a chymhorthion corfforol i gael mynediad i addysg o fewn amserlen resymol. Gall amserlenni llai fod yn berthnasol yma gan eu bod yn cefnogi'r ysgol i hwyluso ymgysylltiad gwell yn y tymor hir.
- Gwella'r modd y caiff gwybodaeth ysgrifenedig ei chyflwyno i ddisgyblion, staff, rhieni ac ymwelwyr sydd ag anableddau; gallai enghreifftiau gynnwys taflenni, amserlenni, gwerslyfrau a gwybodaeth am yr ysgol a digwyddiadau'r ysgol; dylai'r wybodaeth fod ar gael mewn gwahanol fformatau a ffefrir o fewn amserlen resymol.

Mae Cynllun Hygyrchedd *[enw'r ysgol]* yn ymwneud ag agweddau allweddol ar yr amgylchedd ffisegol, y cwricwlwm a gwybodaeth ysgrifenedig

**Diffinio Anabledd**
Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gan berson anabledd:

a) Os oes ganddo amhariad corfforol neu feddyliol; ac
b) Os oes ganddo amhariad sy’n cael effeithiau hirdymor a sylweddol ar ei allu i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol.

**Gwerthoedd Ysgol**
*[nodwch yma wybodaeth sy'n ymwneud ag arwyddair, ethos, cwricwlwm a yrrir gan werthoedd yr ysgol fel y bo'n briodol / perthnasol]*

**Cysylltiadau â dogfennau a pholisïau eraill**
Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

*[nodwch restr o ddogfennau a pholisïau perthnasol, er enghraifft cynllun datblygu'r ysgol, polisi ADY, polisi iechyd a diogelwch, polisïau cwricwlwm]*

**Hyfforddiant ac Adnoddau**
Gellir nodi anghenion hyfforddiant holl staff yr ysgol yn y ffyrdd canlynol:

- Archwiliad o arbenigedd staff a'u hanghenion hyfforddiant
- Cydnabod anghenion penodol ar gyfer disgyblion unigol a sut y gellir hyfforddi staff i gefnogi'r plentyn / grŵp hwnnw o blant
- Elfennau o gynllun gwella / datblygu'r ysgol i fynd i'r afael â hwy drwy hyfforddiant

Caiff adnoddau eu prynu pan fo'u hangen a/neu eu hargymell gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda disgyblion.

**Cefnogi Partneriaethau**
Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol.
Bydd yr asiantaethau canlynol yn cael eu defnyddio i gefnogi'r cynllun, ymhlith eraill:
*[rhowch restr o asiantaethau er enghraifft seicolegwyr addysg, proffesiynau gofal iechyd, athrawon ymgynghorol]*

**Gweithdrefnau Cwyno**
Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref yn aml yn golygu y gellir ymdrin â phryderon a chwynion fel arfer rhwng rhieni, gofalwyr a staff yr ysgol. Fodd bynnag, pan wneir cwyn fwy ffurfiol, mae angen i hyn fod yn unol â Pholisi Cwynion ein hysgol.

**Gweithdrefnau monitro**
Caiff y Polisi a'r Cynllun Hygyrchedd hwn eu hadolygu bob tair blynedd gan yr uwch dîm arwain, gan gynnwys Arweinydd Cynhwysiant yr ysgol, ochr yn ochr â'r corff llywodraethu a'i gadarnhau'n unol â hynny.